PREGETHU O'R EFENGYLAU

"…GWELODD DUW YN DDA TRWY FFOLINEB YR HYN YR YDYM NI YN EI BREGETHU ACHUB Y RHAI SYDD YN CREDU."

Dyma osod y gwaith o bregethu yn ei gyd-destun priodol ar y dechrau. ***Cyfrwng y mae Duw ei hun wedi ei ordeinio ydyw ac nid mater dewisol i'r eglwys a yw ei gyflawni a'i peidio***. Yn sicr, nid oes gan y byd anghrediniol unrhyw ddiddordeb ynddo fel cyfrwng a bu'n hynod o fychanus ohono erioed. O ddyddiau Celsus yn yr ail ganrif, i'n dyddiau ni, bu pregethwyr a phregethu yn destun gwawd. Collasom ninnau ein hyder yn y cyfrwng. Heddiw, clywir cyhoeddi oedfaon o fawl heb bregethu – gyda'r pwyslais ar ***"dim pregeth."*** Nid yw'r syndod clywed y byd anghrediniol yn bychanu'r cyfrwng, ond sefyllfa drist yw honno pan gywir eglwysi a Christnogion eu hunain yn dirmygu'r moddion hwn. Bradychu tlodi ein Cristionogaeth erbyn hyn a wna gosodiadau o'r fath. Fel dywedodd P T Forsyth, "A Christianity of short sermons, is a Christianity of short fibre, " (*Positive Preaching and the Modern Mind,* 1907). Eto, dyma'r union gyfrwng mae Duw ei hun wedi ei ddewis a'i ordeinio i gyflawni ei bwrpas. Mae'r cyfrifoldeb yn disgyn arnom ni i fod yn gyfryngau yn ei law i gyflawni'r pwrpas hwnnw.

Y mae yr un mor wir i ddweud bod Duw wedi gweld yn dda trwy ffolineb pregethu i roi i ddynion a merched yr Efengylau.Y Pedair Efengyl yw dogfennau sylfaenol y Ffydd Gristionogol a ffynhonnell pob gwir gyhoeddi'r Efengyl. Dyma sy'n gwneud eu pregethu yn fwy nag ymarferiad academaidd yn unig – y mae'n fater o gyhoeddi Gair Duw. Nid plesio'r byd neu boddhau clustiau anghredinwyr yw'r nod, ond datgan yn glir ewyllys a bwriadau Duw. Dyma sydd nid yn unig yn rhoi awdurdod i'r pregethwr ond hefyd yn rhoi gostyngeiddrwydd mawr iddo wrth esgyn i'r pulpud. Y mae hefyd yn rhoi awydd ynddo i gysegru pob dawn a dysg sydd ganddo at wasanaeth yr Efengyl honno.

Ystyr y gair Groeg *kerygma* yw pregethu (*kerux* yw'r herald neu'r cyhoeddwr). Ond erbyn heddiw mae ysgolheigion yn gytun bod y gair yn cynnwys y neges a gyhoeddi'r hefyd. Nid traethu ei syniadau ei hun y mae'r pregethwr, felly, fel pryf copyn yn gwau ei we o'i fol ei hun, ond cyhoeddi neges a gafodd ac a ymddiriedwyd iddo. Allan o'r deunydd pregethu hwn y cyfansoddwyd y pedair Efengyl eu hunain. "The Gospels are the heritage bequeathed to the world from the labours of preachers" (G R Beasley-Murray, *Preaching the Gospel from the Gospels,* Epworth, 1965 td. 13). Cofnodon y pregethu llafar hwn yw deunydd sylfaenol yr Efengylau.

Calon y pregethu hwnnw yn ddiau oedd y ffeithiau ynglŷn â gweinidogaeth, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist ynghyd â'r dehongliad ohonynt fel hanfod ein hachubiaeth. Ysgrifenwyd y pethau hyn "er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw ef" (Ioan 20:31). Gweithredoedd Duw yn Iesu Grist yw hanfod yr Efengyl.

Ceisiodd Charles Harold Dodd yn ei lyfr dylanwadol, *The Aposotolic Preaching and its Developments,* 1936, wahaniaethu rhwng y deunydd pregethu a'r deunydd dysgu yn y Testament Newydd. Galwodd y naill yn *kerygma* a'r llall yn

didache. Ymdrechodd grynhoi prif bennau'r pregethu neu'r *kerygma* hwnnw ar sail darnau fel I Corinthiaid 15:3-4 ac Actau 10:36-43. Pwysleisiwyd tri pheth yn y pregethu hwnnw:

i) Daeth dydd cyflawni addewid achubol Duw ac agorwyd Teyrnas Dduw i ddynion.
ii) Daeth y Meseia – Iesu o Nasareth, y mae Ioan yn tystiolaethu iddo a Duw ar waith yn nerthol grymus ynddo. Croeshoeliwyd ef dros bechodau dynion, atgyfodwyd ef ac fe'i dyrchafwyd i eistedd ar Orsedd Duw. Oddi yno y daw i farnu'r byw a'r meirw a sefydlu ei Deyrnas.
iii) Yn wyneb yr iachawdwriaeth hon a dyfodiad y farn, rhaid troi at Dduw a chael ein bedyddio er maddeuant pechodau a derbyn yr Ysbryd Glân yn addewid, sef ernes y greadigaeth newydd gan Dduw.

Gwnaeth Dodd gymwynas fawr â ni yn crynhoi cynnwys neges y *kerygma* yn y modd hwn. Ond dylid nodi ei fod wedi mynd yn llawr rhy bell yn gwahanu y pregethu a'r dysgu mewn modd mor bendant. Y mae ysgolheigion bellach o'r farn bod y deunydd dysgu a'r pregethu efengylaidd wedi eu plethu ynghyd ac wrth gwrs, adlewyrchir hynny yn yr Efengylau eu hunain. Y mae pregethu bob amser yn ***gyhoeddi*** a ***dysgu.***

Yr hyn a geir yn y pedair Efengyl yw helaethiad ar y crynodeb a geir uchod. Mae'n wir i Mathew a Luc ac Ioan yn eu gwahanol ffyrdd ymhelaethu arno gyda deunydd o wahanol ffynonellau, ond yn sylfaenol yr amlinelliad hwn yw sylfaen y cyfan. Er yr amrywiaeth mae'r awduron yn ddidwyll a diffuant yn eu cyflwyniad. Nid oes ganddynt unrhyw beth i'w guddio. Yn wir, adroddant yr hanesion am Iesu gyda gonestrwydd rhyfeddol. Dyna Pedr, yng Nghesarea Philippi yn cyffesu'n ddewr pwy oedd Iesu, ond ar Fynydd y Gweddnewidiad wedi camddeall y cwbl ac erbyn yr wythos fawr yn gwadu'n dalog ei fod yn ddisgybl. Os yw traddodiad yn gywir, atgofion ac adroddiadau Pedr ei hun a geir gan Marc yn ei Efengyl.

Mae'n bwysig i'r pregethwr modern gofio'r allwedd hon wrth bregethu o'r efengylau er mwyn gweld y darlun cyflawn: ***mai gweithredoedd nerthol Duw er iachawdwriaeth y byd yw marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist a'r ail-ddyfodiad gogoneddus: y mae gweithredoedd Duw yn ei weinidogaeth ef yn datguddio natur y waredigaeth honno ymhlith dynion.***

Dyma'r allwedd i ddeall popeth yn yr Efengylau:

i) ***Y Gwyrthiau***. Holl ddiben yr hanesion am Iesu yn iachau yw dangos y gwirionedd hwn. Dyna Marc 1:21ymlaen, lle cofnodir hanes Iesu yn iachau dyn wedi ei feddiannu gan ysbryd aflan trwy awdurdod ei air. 'Does dim rhyfedd i'r rhai a welodd ofyn "Beth yw hyn? Dyma ddysgeidiaeth newydd ac iddi awdurdod!" Dyna hanes y dyn wedi ei barlysu. Y mae'r hanesyn hwn yn bwysig am ei fod yn cael ei ddefnyddio fel eglureb i gyhoeddi fod gan Iesu Grist yr hawl i faddau pechodau. Y mae'r gair a'r weithred yn mynd efo'i gilydd. Ofer yw ceisio gwahanu geiriau a gweithredoedd Iesu oddi wrth ei gilydd fel yr wyf wedi clywed ambell bregethwr yn ceisio'i wneud (rhai ohonynt yn honni bod yn bobl ddeallus iawn). Na, mae'r Person, ei eiriau a'i weithredoedd, yn anatod oddi wrth ei gilydd. Ni ellir deall y naill heb y

llall. A dyna sydd gan Pedr i'w gyhoeddi yma :- "Hwn yw'r Iesu yr wyf yn ei bregethu i chwi! Ef yw'r un all eich rhyddhau o afael pechod a'ch gwneud yn wir blant i Dduw."

Cywasgwyd adroddiadau yr Efengylau i'r asgwrn er mwyn eu gwneud yn addas i hyfforddi (ac oherwydd cyfyngiadau maint y rholiau papurfrwyn yr ysgrifennwyd hwy arnynt). Deunydd i bregethu ac i ddysgu ydynt yn eu hanfod. Pan gofir hynny, cawn yr Efengylau yn ildio eu trysor. Beth oedd pwrpas y pregethwr wrth adrodd hanes y claf o'r parlys? Yn gyntaf, yr oedd yn ddarlun o allu yr Arglwydd i ryddhau dyn o afael effeithiau pechod. Lle mae grymusterau Teyrnas Dduw ar waith rhaid i afael marwolaeth a nychdod ildio. Ond 'roedd mwy i'r hanes na hyn hefyd. Yr oedd geiriau Iesu wrtho yn cyffwrdd ei gyflwr ysbrydol ac nid y corfforol yn unig: "Fy mab, maddeuwyd dy bechodau." Gwingodd yr ysgrifennyddion yn y dyrfa pan glywsant y geiriau. "Pwy ond Duw sy'n gallu maddau pechodau?" Heriodd Iesu hwy i ateb pa un sydd hawsaf, maddau pechodau neu iachau? Atebodd Iesu eu distawrwydd trwy wneud y ddau beth! Pwrpas yr hanes yw nid yn gymaint dangos gallu Mab Duw i iachau, ond cyhoeddi: "Mae gan Fab y Dyn awdurdod ar y ddaear i faddau pechodau." Trwy faddau pechodau mae Duw yn iachau dynion, gorff ac enaid. Nid yw'r gorffen yno ychwaith. Mae'r pregethwr yn mynd rhagddo i ddatgan bod y weithred hon yn arwydd o'r hyn fydd yn digwydd yn Nheyrnas Dduw, pan ddaw honno yn ei llawnder.

Ynghlwm wrth y gweithredoedd yr oedd digwyddiadau bywyd Iesu. Y cerrig milltir hynny yn ei bererindod daearol, o'i fedydd i'w esgyniad. "These narratives make the finest preaching material of the Bible in the service of the Gospel" (G Beasley-Murray, op cit. Td21).

ii) ***Dysgeidiaeth Iesu***. Yma hefyd mae'r ffaith mai deunydd pregethu a dysgu yw y rhan fwyaf o'r deunydd hwn yn ffaith bwysig i'w hystyried wrth bregethu arno. Mae'r rhan fwyaf o'i ddysgeidiaeth wedi ei anelu at ei ddisgyblion ac yn cael ei gyflwyno mewn modd cofiadwy:

Gofynnwch ac fe roddir i chwi:
Ceisiwch ac fe gewch;
Curwch ac fe agorir i chwi.
Oherwydd mae pawb sy'n gofyn yn derbyn;
A phawb sy'n chwilio yn cael;
Ac i bawb sy'n curo yr agorir y drws.

Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng yr hen Gyfraith a'r ddysgeidiaeth newydd, fel y defnyddir ef yn y Bregeth ar y Mynydd, eto yn pwysleisio nodweddion Teyrnas Crist. Yr un modd, mae'r damhegion yn bethau a ddefnyddir ganddo i'r pwrpas arbennig o gyhoeddi dyfodiad ei Deyrnas. Yn wahanol i'r hyn mae llawer yn ei gredu amdanynt nid storiau bach neis gyda moeswers ar eu diwedd ydynt. Yn wir, mae neges yn Deyrnas yn cael lle amlwg ynddynt. Ond nid hynny yn unig. Dywed Iesu ei fod yn dysgu ar ddameg yn fwriadol er mwyn cuddio gwirionedd ei neges rhag rhai pobl (Marc 4: 12).

Mae'n debyg mai casgliad o bregethau Iesu ar wahanol achlysuron yw llawer o'r hyn a geir yn y Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5 – 7). Yn sicr byddai casgliadau o

ddywediadau Iesu wedi cael eu crynhoi a'u hysgrifennu yn gynnar iawn gan yr apostolion cyn iddynt ddechrau cael eu gwasgaru y tu hwnt i Jwdea. Gwelir olion, efallai, o gasgliadau cyffelyb yn Paul, e.e. I Thesaloniaid 4:13 ymlaen a II Thesaloniaid 2.

Hyd yn hyn yr ydym wedi cyfeirio at yr Efengylau Cyfolwg yn unig. Ond mae'r hyn a ddywedir amdanynt hwy yn arbennig o wir am y Bedwaredd Efengyl. A chymryd mai Ioan y Disgybl Annwyl yw'r awdur, gellir dweud mai Efengyl y pregethwr yn annad dim arall yw hon. Y mae C H Dodd yn ei waith mawr ar yr Efengyl hon yn ei rhannu yn ddwy brif adran: yn dilyn y Prolog, ceir o bennod 2 hyd 12 Llyfr yr Arwyddion, ac o bennod 13 hyd 21 Llyfr y Dioddefaint (neu'r Gogoneddiad). Yr olaf yn canolbwyntio ar ffeithiau'r iachawdwriaeth a enillwyd gan Iesu, ond y cyntaf yn rhannu'n saith rhan, pob un yn cynnwys arwydd neu "wyrth" ynghyd â chyhoeddiad neu bregeth yn esbonio arwyddocâd y weithred. Er bod datblygiad ymhob un o'r saith darn, y maent yn gymharol gyflawn ynddynt eu hunain ac yn grynodeb o galon yr Efengyl Gristionogol trwy gyhoeddi pwrpas dyfodiad Iesu Grist i'r byd yn Waredwr pechaduriaid. Ym mhennodau 13-16 mae'n amlwg mai'r hyn a geir yw myfyrdod neu bregeth ar y Cymun (dwy bregeth wedi ei cyfuno yn un 13-14 ac 15-16). Dyma gadarnhad pellach mai Efengyl gan bregethwr i bregethwyr ydyw ac i'r diben o gael ei phregethu y lluniwyd hi.

O gofio hyn, mae gan y pregethwr cyfoes arfogaeth bwysig yn ei feddiant. Nid yw yn sefyll yn y pwlpud er mwyn dangos ei glyfrwch ei hun nac i ddangos ei ddoniau fel cyfathrebwr ychwaith, ond ei nod yw gadael i'r hanesion hyn lefaru heddiw. Geilw hynny am drwytho ein hunain yn yr hanesion fel y cofnodir hwy yn y pedair Efengyl a'u cyhoeddi fel Gair Duw i'n hoes ni. Dyna yw plannu'r had - cofier mai gwaith yr Ysbryd yw rhoi y cynnydd.

MATHEW: EFENGYL Y DDYSGEIDIAETH

Y mae bob un o'r Efengylwyr yn adlewyrchu yn eu gwahanol ffyrdd ddysgeidiaeth ganolog Iesu Grist. Fel arlunwyr medrus maent yn portreadu Iesu yn broffwyd, gwas a brenin. Fel Proffwyd yr oedd Iesu yn dehongli ei fywyd yng ngoleuni Gair Duw. Yr oedd yn ymwybodol ei fod yn cyflawni proffwydoliaeth yr HD. Y mae Arglwydd y Gair hefyd yn dod yn was y Gair a phorthodd ei enaid ar yr Ysgrythurau gan apelio atynt hwy yn hytrach nac at draddodiad y tadau. Dyma sy'n gwneud ei ddealltwriaeth o'i weinidogaeth yn unigryw – yr oedd ef ei hun yn unigryw. Y mae'r Person a'r geiriau yn mynd efo'i gilydd. Yn yr ysytyr hon y dehonglodd Ganeuon y Gwas a Mab y Dyn llyfr Daniel mewn termau cwbl bersonol. A thestun canolog ei bregethu a'i weithredu oedd Teyrnas Dduw (neu Teyrnas Nefoedd fel ym Mathew). Thema ganolog dysgeidiaeth Iesu Grist yw Teyrnas Nefoedd. Dyma gyd-destun ei ddysgeidiaeth bob amser – cyhoeddi, datgan, gweithredu a byw'r Deyrnas a wnaeth.

CYD-DESTUN EI DDYSGEIDIAETH – TEYRNAS NEFOEDD

X

DARLLENWCH MATHEW 4:17-25

Gwnewch nodyn o'r prif syniadau gan sylwi'n arbennig ar adnodau 17,19 a 23.

Cyhoeddir thema Iesu ym Mathew 4:17: "Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos." Mae'r ffaith syml nad yw Mathew yn dymuno defnyddio'r ymadrodd "Teyrnas Dduw" yn bradychu natur mwy Iddewig ei efengyl ac yn awgrym ei fod wedi anelu ei waith at gynulleidfa Hebreig. Cred lled gyffredin yn eu mysg hwy yr adeg hon oedd y byddai Duw yn ymyrryd ym mywyd y byd hwn i sefydlu ei deyrnas o heddwch a chyfiawnder gan eu rhyddhau hwythau o afael caethiwed a gorthrwm.

Cyhoeddodd Iesu fod y weithred hon o eiddo Duw wedi "dod yn agos." Yn wir, yr oedd eisoes yn weithredol ym mywyd Iesu ei hun. Y mae ysgolheigion, fel C H Dodd er enghraifft, yn mynnu bod Iesu yn golygu bod y deyrnas wedi dod. Ond erbyn hyn mae'r mwyafrif o'r farn mai rhywbeth i'r dyfodol ydyw. Y mae'n ddiamheuol, fodd bynnag, bod Iesu yn disgwyl i bobl ymateb i'r neges trwy ymwrthod â drygioni a byw y bywyd newydd.

Ystyr sylfaenol y gair "edifeirwch" yw "newid meddwl." Newid sydd mor fawr nes ei fod yn ddim llai na chwyldro yn ffordd rhywun o fyw. Newid cyfeiriad bywyd neu mewn termau Cristnogol troi tuag at Dduw. Gweler Eseciel 18:30 ymlaen: "Edifarhewch, a throwch oddi wrth eich holl gamweddau ... Bwriwch ymaith yr holl gamweddau a wnaethoch, a cheisiwch galon newydd ... edifarhewch a byddwch fyw."

Dilynir yr her i edifarhau gan hanes galw'r disgyblion. Gweithred sy'n dangos yr ymateb priodol i edifeirwch – ymrwymiad i ddilyn Iesu (adnodau 18-22). "Gadawsant eu rhwydau ar unwaith a'i ganlyn ef."

Ymhellach, mae dilyn Iesu yn adfer dyn i iechyd cyflawn – gorff ac enaid. Dilynir yr hanes am alw'r disgyblion gan nifer o hanesion am Iesu yn iachau cleifion. Mae'r neges am y Deyrnas yn effeithio bywyd yn ei holl gyflawnder.

Gyda dyfodiad Iesu i'r byd gellir dweud bod y Deyrnas wedi torri i mewn i fyd amser. Er nad yw wedi eto dod yn ei chyflawnder, y mae yn bresennol ym mywyd a gweinidogaeth Iesu. Ef yw Brenin y Deyrnas. Y mae disgwyl mewn gobaith am ddyfodiad y Deyrnas i Gristionogion yn gyfystyr â disgwyl dyfodiad Crist eilwaith. Rhaid i'r eglwys gyhoeddi neges fawr dyfodiad y Deyrnas! Y mae ei grym ar waith ym mywydau ei deiliaid heddiw. Nid rhyw obaith gwan am fywyd wrth sefyll ar lan bedd yw'r bywyd tragwyddol i'r Cristion, ond rhywbeth sy'n rhoi ysbrydoliaeth gwirioneddol iddo yng nghanol y byd hwn. Gwreiddiwyd y gobaith hwn yn y ffaith hanesyddol fod Duw wedi gweithredu mor rhyfeddol yn y Pasg cyntaf.

DYSGEIDIAETH PUMP ADRAN

Nid damwain yw bod Mathew wedi cyfansoddi ei Efengyl i gynnwys pump adran o ddysgeidiaeth. Fel y dywedwyd, ef yw'r mwyaf Iddewig o'r Efengylwyr. Dichon mai ei amcan yw adlewyrchu y Pumllyfr (Genesis – Deuteronomium) gan bwysleisio wrth y gwrandawyr – "Edrychwch, dyma ddysgeidiaeth Moses newydd. Yn wir, mae iddi fwy o awdurdod na'r eiddo Moses."

ADRAN 1	**PEN. 5-7**	**Bywyd y Deyrnas**
ARDAN 2	**PEN.10**	**Cenhadon y Deyrnas**
ADRAN 3	**PEN.13**	**Damhegion y Deyrnas**
ADRAN 4	**PEN.18**	**Perthynas pobl y Deyrnas**
ADRAN 5	**PEN.24-25**	**Dyfodiad y Deyrnas**

ADRAN 1
<u>BYWYD Y DEYRNAS</u>

Y Bregeth ar y Mynydd Mathew 5-7



Darllenwch Mathew 5-7

Mae'n amlwg mai casgliad o bregethau Iesu a geir yn y penodau hyn. Ond yr allwedd i'r cyfan yw dysgeidiaeth Iesu am ddyfodiad y Deyrnas. Yn erbyn y cefndir hwnnw mae deall yr hyn a ddywedir yma am ymarweddiad priodol y Cristion: caru gelynion, elusen, gweddi, ymprydio, godineb, ysgariad, cyfoeth, goleuni, barnu eraill, ceisio a chael, y pren a'i ffrwyth, y ddwy sylfaen. Mae pob elfen i'w ddeall yn erbyn cefndir helaethach dysgeidiaeth Iesu am y Deyrnas.

Felly, nid rhestr digyswllt o ddywediadau sydd yma, ond disgrifiad o beth yw bywyd y Deyrnas. Cyfrinach cyflawni'r gofynion hyn yw perthynas gyda Duw yn Iesu. Bywyd y disgybl sydd yma, yr hwn sydd mewn cysylltiad agos gyda'i Arglwydd. Yn wir, heb honno ofer yw pob ymdrech i'w cadw.

a. Y Gwynfydau.

Mae hyn yn arbennig o wir am y Gwynfydau (Mathew 5:3-12) – perthynas disgyblion Iesu â'i gilydd yn Nheyrnas Dduw a ddarlunir yma. Gofynion sy'n gwbl amhosibl eu cadw heb berthynas sylfaenol â'r Iesu ei hun. Fel y dyweddodd William Manson, ni ellir meddwl am gadw'r gofynion hyn heb ynganu o flaen bob un ohonynt, "Trwy Grist ... gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd ... yn galaru ... yn addfwyn," ac yn y blaen.

Y mae'r Gwynfydau yn agor gyda datganiad eglur o ddedwyddwch yn y byd hwn a diweddant gydag addewid o gyflawniad y dedwyddwch hwnnw yn Nheyrnas Nefoedd. "Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd," meddai Iesu. I'r rhai a orthrymwyd yn y pesennol, heb eiddo na meddiannau'r byd hwn, sy'n ymwybodol o'u tlodi ac yn dibynnu yn llwyr ar Dduw am waredigaeth. Eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd! Mae'r gwynfyd cyntaf hwn, fel y gweddill ohonynt, yn disgrifio iachawdwriaeth y Meseia. "Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru," meddai Iesu, hynny yw, y rhai sy'n galaru oherwydd pechod a thrasiedi'r byd. "Cânt hwy eu cysuro," hynny yw, pan ddaw cysur Teyrnas Dduw. "Oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd yn eu bugeilio hwy ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigryn o'u llygaid hwy" (Datguddiad 7:17).

“Gwyn eu byd y pur o galon,” meddai Iesu. Nid rhywbeth arwynebol yw crefydd ond rhywbeth sy’n effeithio ar fywyd yn ei gyfanrwydd. Gwendid mawr y Phariseaid oedd anghofio’r ffaith honno. I’r weithred fod yn bur, rhaid i’w tharddiad fod yn bur a glân hefyd. Dim ond ar ôl i Iesu gyflawni ei waith mawr y gellid sylweddoli’r ffaith hon. Yn Nheyrnas Dduw y bydd y pur o galon yn gweld Duw wyneb yn wyneb.

Ac felly gyda’r holl wynfydau. Diweddant, fel y dechreusant, gyda chyhoeddiad eglur fod Terynas Nefoedd ar waith yn Iesu. Trwy’r Ysbryd Glân sylweddoli’r y Deyrnas hon, ef yw ei chyfrwng a’i haddewid.

Os yw’r Gwynfydau yn faniffesto’r Deyrnas, y cyfrwng cyntaf sydd gan ddisgyblion Iesu i’w gwireddu yn eu bywydau yw Gweddi. Dyma yw canolbwynt y chweched bennod. Heb weddi mae’r gofynion hyn yn amhosibl eu gwireddu. Dylai gweddi’r disgybl ganolbwyntio ar geisio ewyllys Duw yn gyntaf, ac yna, gofyn am ein anghenion materol ac ysbrydol. Nid oes angen gofidio a phryderu am bethau’r byd hwn na cheisio dynwared y chwant am gyfoeth sydd wedi meddiannu rhai pobl. Mae’n amhosibl rhoi i Dduw yr hyn y mae’n ei haeddu a gwasanaethu cyfoeth.

b. Cenhadon y Deyrnas



Darllenwch Mathew 10

Cyfyngodd Iesu ei weinidogaeth bron yn llwyr i Israel. At “ddefaid colledig tŷ Israel” yr anfonodd ei ddisgyblion ar y daith genhadol fawr. Nid yw’r Comisiwn Mawr i fynd i’r holl genhedloedd yn ymdangos tan ar ôl atgyfodiad Iesu. Eto, un o arwyddion dyfodiad pendant y deyrnas yw’r genhadaeth hon ac un sy’n pwysleisio agwedd arall arni. Teyrnas y Tad yw hi.

Mae darnau hyn yn awgrymu perthynas unigryw rhwng Iesu a’r Tad. Ym Mathew 11: 27 dywed Iesu bod Duw, Arglwydd Nef a Daear, yn Dad iddo a bod y berthynas rhyngddynt yn unigryw. Gallai unrhyw un hawlio fod Duw yn Dad iddo, ond yma dywedir llawer mwy, “Nid oes neb yn adnabod y Mab ond y Tad, ac nid oes neb yn adanbod y Tad ond y Mab a phwy bynnag y mae’r Mab yn dewis ei ddatguddio iddo.” Dyma ddatgan nid yn unig Tadolaeth Duw, ond hefyd perthynas unigryw y Mab ag ef. Cawn ninnau ddyfod i gyfrinach y Deyrnas trwy gredu yn y Mab. Dysgodd ei ddisgyblion i weddio, fel y gwelsom, ac i ddod i gyfrinach y Tad. Rhan o’r gyfrinach honno oedd cyfarch Duw fel “Abba” neu Dad.

Hyd yn oed pan lusgwyd hwy o flaen yr awdurdodau (yr oedd hynny yn digwydd yn gyffredin) nid oeddent i ofni, oherwydd byddai’r Tad yn rhoi ei Ysbryd i’w cynorthwyo (Mathew 10:20). Felly’n union, ni ddylent ofni’r rhai sy’n

lladd y corff, yn hytrach, dylent ofni'r hwn sydd a'r gallu i ddinistrio'r corff a'r enaid (Mathew 10:28). Trwy atgoffa'r Cristionogion ofnus o eiriau Iesu mae Mathew yn galw ar ei gyd-Gristnogion i fod yn ddewr ac i fentro dros y Deyrnas.

c. Damhegion y Deyrnas.



Darllenwch Mathew 13

Unwaith yn rhagor y Deyrnas a'i dyfodiad yw thema ganolog y Damhegion. Dyma'r "gyfrinach" a roddir i'r disgyblion yn unig i'w chlywed. Nid yw pawb yn cael gwybod amdani, yn wir, i bawb arall mae'r cyfan ar ddameg. Awgrym clir y geiriau hyn yw nad straeon neu eglurebau bach neis oedd y damhegion, ond dysgeidiaeth oedd wedi ei anelu at y disgyblion yn bennaf, ond hefyd fel arwydd o gyflawniad proffwydoliaeth a geiriau syfrdanol Eseia: "Clywch yn wir, ond peidiwch â deall; edrychwch yn wir, ond peidiwch â dirnad" (Eseia 6: 9). Dyma'r union eiriau y mae Iesu yn eu dyfynnu wrth egluro i'r disgyblion beth oedd diben y damhegion gan ychwanegu y dywediad yn adnod 12: "oherwydd i'r hwn y mae ganddo y rhoir... ac oddi ar yr hwn nad oes ganddo y dygir oddi arno yr hyn sydd ganddo."

Gyda Dameg yr Heuwr wynebir y gwrandawyr â chynnydd y Deyrnas. Rhaid cofio yma, mai Iesu ei hun yw'r Heuwr *par excellence* ac oherwydd ei weithgarwch ef mae'r Deyrnas fel hedyn mwstard, yn tyfu o ddim i fod yn goeden fawr.

Gellir rhannu'r Damhegion yn fras i'r penawdau canynol:

i) Natur y Deyrnas, Y Trysor a'r Perl Gwerthfawr Mathew 13:44 ymlaen, y Gwenith a'r Efrau 13:24 yml.
ii) Amodau dyfodiad y Deyrnas, Y Gwithwyr yn y Winllan, Mathew 20: 1 yml.
iii) Cyflawniad y Deyrnas, Y Deg Morwyn, Mathew 25
iv) Her y Deyrnas, Barnu'r Cenhedloedd, Mathew 25.

Y mae'r Damhegion yn datguddio arwyddacâd cosmig Crist a'r angen i ymateb iddo yn awr. Mae bywyd i gyd yn fater o ymateb i her Iesu ei hun.

Ch) Perthynas Disgyblion y Deyrnas.



Darllenwch Mathew 18.

Sefydlodd Duw gymuned newydd (18:20 – 'eglwys' y gelwir hi yma ac ym mhennod 16). Geilw honno am ymarweddiad newydd, a dyma a geir yn y bennod hon. Dim ond y rhai sy'n barod i ymostwng fel plant bach all gael mynediad i Deyrnas nefoedd. Y mae pob son am bwysigrwydd yn gwbl ofer. Gofalu am y "praidd bychain" yw cyfrifoldeb pennaf deiliaid y Deyrnas ac os esgeulusir hynny mae'r gosb yn ddifrifol (18:6).

Y mae gweinyddu disgyblaeth yn yr eglwys yn fater pwysig (adn. 15-20) a nod y ddisgyblaeth honno yw adfer pobl i berthynas â Duw. Dim ond pan fo pob ymdrech wedi methu y mae angen gweithredu i ddifrif, a hynny gan yr eglwys gyfan. Y mae'r gofal hwn am yr eglwys fel sefydliad yn unigryw i Mathew.

d) Dyfodiad y Deyrnas



Darllenwch Mathew 24-25

Mae'r pumed adran yn agor gyda phennod 24. Rhybuddir Jerwsalem, y ganolfan grefyddol, ar ddiwedd pennod 23 i ymateb i'w chyfle olaf i edifarhau. Yna, trodd Iesu i Galilea i rybuddio fod dinistr y Deml ar fin dod. Yma mae'r Damhegion am ddyfodiad y Deyrnas yn plethu i'r naratif

NODWEDDION MATHEW – CRYNODEB

- Cynhwysir adroddiadau'r geni ac yn arbennig ymweliad y doethion
- Cynhwysir Marc broni gyd ynghyd â deunydd ychwanegol
- Cyhoeddir Iesu yn Fab Duw o'r dechrau.

- Efengyl sy'n dangos dylanwad Iddewig:

  Cyflwynir Iesu fel cyflawniad Iddewiaeth
  Ceir llawer o ddyfyniadau o'r HD
  Mae'r pum pregeth fawr yn adlewyrchu'r Pum Llyfr – mae pob un yn diweddu gyda fformiwla (Mathew 7:28, 11:1, 13:53, 19:1, 26:1).

- Dengys fethiant yr Iddewon i ymateb i'r efengyl

- Dengys ddylanwad y genhadaeth i'r Cenhedloedd
  Iesu'n gwrthod Israel ac yn derbyn eraill (Mathew 8:11, 12:21, 21:43).
  Y Comisiwn Mawr i genhadu i'r holl genhedloedd (28:18-20).
  Defnyddir termau doethineb Roegaidd.

- Adlewyrchir bywyd a threfniadaeth yr eglwys fore (10:16-23 a 16 a 18).

Lluniwch amlinelliad o bregeth ar unrhyw un o'r adrannau uchod gan ddefnyddio'r patrwm isod.

EFENGYL MARC – Y NEWYDDION DA

Ar yr olwg gyntaf mae Efengyl Marc yn ymddangos yn dipyn o ddirgelwch. Pam trafferthu ei darllen o gwbl os nad yw yn ddim namyn talfyriad o Mathew neu Luc? Pa ddiben ei chynnwys yn y TN os nad ond adroddiad o atgofion un o'r disgyblion? Distawyd y beirniaid pan awgrymwyd gan rai mai Marc oedd yr efengyl wreiddiol ac mai ymestyniad ohoni oedd y lleill. Lluniwyd sawl bywgraffiad o fywyd Iesu ar ei sail yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yna cafwyd adwaith pellach y beirniaid ffurf a geisiodd olrhain y ffynonellau y tu ôl i'r efengylau. Ail-orseddwyd pwysigrwydd yr efengylwyr unigol gan feirniadaeth redactig. Fel y gwelsom, fodd bynnag, mae un beirniad wedi ei dadrithio gan yr holl falu a darnio ar yr efengylau ac wedi dod i'r argyhoeddiad mai ffrwyth dychymyg llawer o'r beirniaid eu hunain yw llawer o'r damcaniaethau.

Mae'n bwysig cael golwg ar yr efengyl fel cyfanwaith. Felly, ceisiwch ei darllen mewn dwy ran.



Darllenwch Marc 1:1- 8:30 a 8:22 – 16:8.

Deall y Darlun. Mae pob un o'r efengylwyr fel arlunwyr unigol yn darlunio bywyd Iesu o berspectif gwahanol. Nid yw Marc yn eithriad.

Sylfaen ei ddarlun yw'r ffeithiau am fywyd Iesu, ei farwolaeth, ei atgyfodiad a'i ymddangosiadau wedi'r atgyfodiad. Heb amheuaeth mae'n gyflwyniad medrus o'r ffeithiau hyn. Ymddengys iddo lunio'r darlun tua 35 o flynyddoedd wedi'r digwyddiadau.

Ei ddeunydd crai yw'r atgofion a'r hanesion a drosglwyddwyd yn y gymuned Gristionogol gynnar. Fel y gwelsom, yr oedd rhwydwaith o bregethwyr teithiol yn bodoli yn y cyfnod hwn ac fe ddiogelwyd yr hanesion am Iesu ganddynt hwy ac eraill. Yr oedd hefyd, dystiolaeth y llygad-dystion. Fel pregethwyr yr oeddent yn cyfarch sefyllfaoedd arbennig ym mywyd yr eglwys fore ac yn cymhwyso dysgeidiaeth Iesu i'r amgylchiad. Erbyn heddiw, collwyd yr union gyd-destun hwnnw, er hynny erys geiriau Iesu yn chwarel i'r pregethwr cyfoes i'w defnyddio a'u cyhoeddi yn newyddion da i'n hoes ni.

Golwg ar y darlun cyfan.

1:1 – 4:34 Gweinidogaeth Iesu
8:22 – 10:52 Meseianiaeth a bod yn ddisgyblion
14:1 – 16:8 Marwolaeth Iesu a'i Atgyfodiad.

Dyma ddarlun o gynnwys yr efengyl:

1. Gweinidogaeth Iesu

1:1 – 13	PROLOG
	Teitl
	Ioan Fedyddiwr
	Bedydd Iesu
	Y Temtiad
1:14 – 20	DECHRAU'R WEINIDOGAETH
	Pregeth gyntaf Iesu
	Galw'r disgyblion
1:21 – 45	GWEINIDOGAETH YNG NGALILEA
	Dysgu a phregethu yng Nghapernaum
	Iachau
	Gweddi Iesu a lledaenu'r weinidogaeth
	Iachau gwahanglwyfus
2:1 – 3:6	IESU MEWN GWRTHDARO
	Iachau'r claf o'r parlys
	Iesu a Lefi
	Dadlau am ymprydio
	Dadlau am y Saboth
	Dadlau am y Saboth (2) Iachau.
3:7 -12	GWEINIDOGAETH YNG NGALILEA (crynodeb)
3:13 – 19a	PENODI'R DEUDDEG
3:19b – 35	GWRTHOD IESU
	Gwrthod gan ei bobl ei hun
	Gwrthod gan yr ysgrifenyddion
4:1-34	DAMHEGION
	Yr heuwr
	Dywediadau
	Yr had yn tyfu
	Hedyn mwstad
	Crynodeb a dywediada eraill

2. Meseianiaeth a Bod yn Ddisgybl

8:22 – 26	IACHAU DYN DALL YM METHSAIDA
8:27 – 9:1	CESAREA PHILIPI
	Cyffes Pedr
	Rhagweld ei ddioddefaint
	Dioddefaint y disgyblion
9:2 – 13	GWEDDNEWIDIAD
	Mynydd y Gweddnewidiad
	Trafod gyda'r disgyblion
9: 14 – 29	IACHAU BACHGEN

9: 30 – 50 DYSGU YNG NGALILEA
Rhagweld ei ddioddefaint
Dywediadau amrywiol

10: 1:16 DYSGU YN JWDEA
Ysgariad
Bendithio Plant

10:17 – 31 CYFOETH A BOD YN DDISGYBL
Gwr cyfoethog yn methu dilyn
Dysgeidiaeth am gyfoeth

10: 32 – 52 Y FFORDD I JERWSALEM
Rhagweld ei ddioddefaint
Cais Iago ac Ioan
Iachau Bartimeu

3. Marwolaeth ac Atgyfodiad Iesu

14: 1 – 11 PARATOAD
Trefnu bradychu Iesu
Eneinio ym Methania

14: 12 – 26 Y SWPER OLAF
Rhagfynegi'r bradychu
Arwyddion y Bara a'r Gwin

14: 27 – 52 GETHSEMANE
Rhagweld gwadiad y disgyblion
Gweddi Iesu
Restio Iesu

14:53 – 15:15 YR ACHOS
Yr achos o flaen y Sanhedrin
Gwadiad Pedr
O flaen Peilat

15:16 – 39 CROESHOELIAD
Dirmygu
Y ffordd i Golgotha
Croeshoeliad
Marwolaeth

15:40 – 47 CLADDU
Y gwragedd
Joseph o Arimithea

16:1 – 8 ATGYFODIAD

“Dechrau Efengyl Iesu Grist Fab Duw”

Marc 1:1-13. Rhagarweiniad. Mae’r 13 adnod gyntaf yn adran unigryw ac yn disgrifio digwyddiadau pur wahanol i’r hyn a geir yng ngweddill yr efengyl. Ceir adrannau Cristolegol sy’n gwbl sylfaenol i weddill y gwaith. Ceir yma wybodaeth am pwy oedd Iesu a beth oedd ei weinidogaeth. Dyma osod y llwyfan yn gwbl eglur. Yr hyn sy’n drawiadol, fodd bynnag, yw bod Marc yn mynd rhagddo yng ngweddill yr efengyl i gyhoeddi bod y ffeithiau hyn am Iesu yn destun dirgelwch mawr. Ymddengys fod Marc am hysbysu’r darllenydd ar y dechrau beth yw cynnwys y dirgelwch hwn – fel pe bai am rannu ymlaen llaw gyda ni y cliwiau eglur a geir yng nghorff y gwaith. Ond mae’r ffaith hon yn bwysig i’w chofio cyn dechrau deall y gweddill.

Yr un modd a Ioan yn ei efengyl, mae Marc ar ffurf naratif yn hytrach na myfyrdod athronyddol, am ddweud wrthym fod Iesu yn Fab Duw. Y mae’r frawddeg gyntaf yn ffurfio rhyw fath o deitl i’r gwaith i gyd ac yn unigryw i Marc. Nid ysgrifennu bywgraffiad o Iesu y mae, na golygu casgliad o ddywediadau, ond cyhoeddi’r newyddion da am Iesu! Wrth gwrs, fe geir hanesion a digwyddiadau ym mywyd Iesu, ond nod yr efengyl yw dweud wrthym ***pwy*** ydoedd. A dyma’r hyn a geir yn y prolog hwn.

(a) Fel yn Efengyl Ioan, swyddogaeth Ioan Fedyddiwr yw tystiolaethu am y ffaith honno. Unig arwyddocad Ioan yw ei berthynas â’r Iesu – un sy’n paratoi’r ffordd. Mae’r ddau ddyfyniad o Malachi ac Eseia yn pwysleisio hynny. Newidodd Marc a rhagenwau personol ynddynt er mwyn cael “yr Arglwydd” i gyfeirio at Iesu. Geilw Ioan am edifeirwch cenedlaethol ac nid yn gymaint personol neu unigol. Y mae’r “holl wlad” i ymateb i ddyfodiad y Meseia. Ac i’r graddau y digwyddodd hynny, rhaid derbyn bod gweinidogaeth Ioan wedi bod yn llwyddiannus. Yma ac ym mhennod 9, mae Marc yn cyffelybu Ioan i Elias y proffwyd (1 Bren. 1:8) er mwyn datgan bod iachawdwriaeth yr Arglwydd gerllaw. Un o’r arwyddion eschatolegol dyfodiad yr iachawdwriaeth oedd ymddangosiad Elias drachefn.

Mae’r Iesu yn “gryfach” na Ioan a bydd yn bedyddio â’r Ysbryd ac nid â dŵr. Beth yn union oedd ystyr bedydd Ioan mae’n anodd dweud. Efallai mai rhyw fath o adnewyddiad ydoedd i bobl Israel a pharatoad ar gyfer dyfodiad y Meseia. Ond mae bedydd yr Ysbryd yn arwyddocaol fel un peth pellach sy’n ffurfio gwrthgyferbyniad rhwng Ioan a’r Iesu. Dyma un o arwyddion amlwg oes y cyflawniad – “a thywalltaf fy Ysbryd ar bob cnawd” (Joel 2).

(b) Pwrpas yr hanes am y bedydd yw pwysleisio pwy yw Iesu. Y mae’n arwydd fod Iesu yn uniaethu ei hun yn llwyr gyda’i bobl yn y mudiad adnewyddol hwn. Ond yn hanfodol i’r hanes yw fod y nefoedd yn agored a’r Ysbryd yn disgyn a llais y Tad. Gyda dywediad am rwygo’r nefoedd mae Marc am gyhoeddi fod Duw yn disgyn i’r ddaear i gynorthwyo ei bobl. Yn Eseia 64:1 cyhoeddi’r fod Duw yn dod i waredu ei bobl. Digwyddiad eschatolegol yw dyfodiad yr Ysbryd hefyd gan fod yr Iddew yn meddwl mai rhywbeth i’r gorffennol ac i’r dyfodol ydoedd. Yn y gorffennol bu’r Ysbryd yn weithredol yn y creu, ond gyda diwedd oes proffwydoliaeth tybiwyd ei fod wedi gadael Israel hyd nes y deuai Duw yn y diwedd i achub ei bobl. Y mae ei ddyfodiad yn arwydd o wawrio’r oes Feseianaidd.

Saif y golomen yn sumbol trawiadol gan fod y pedair efengyl yn cyfeirio ati, ond erbyn hyn ni allwn fod yn siwr o ystyr y darlun. Awgrymodd esbonwyr rabinaidd mai ystyr y gair "ymsymud" yn Genesis 1:2 yw "brooding," felly ceir y syniad o golomen yn eistedd ar ei chywion. Os oedd Marc yn gwybod am yr esboniad hwn yr oedd yn ei ddehongli i olygu fod Ysbryd creadigol Duw ar waith ym mherson Iesu. Y mae'r syniad o greadigaeth newydd yn gyforiog o ystyr – fel y dengys Paul sy'n dehongli iachawdwriaeth yn nhermau creadigaeth newydd ar sail gwaith Crist trwy rym yr Ysbryd. [Olrheiniodd Mathew a Luc weithgarwch yr Ysrbyd ymhellach yn ôl ym mywyd Iesu – i'w enedigaeth wyrthiol. Y mae honno a'r bedydd yn arwyddo gweithgarwch nweydd yr Ysbryd.]

Y mae'r geiriau agoriadol, "dechrau efengyl..." hefyd yn adlais o eiriau agoriadol Genesis. Credai Marc felly fod y wybodaeth o'r ffaith fod Iesu wedi ei feddiannu gan yr Ysbryd yn sylfaenol bwysig i'r ddealltwriaeth o'r hyn ydoedd yn ei berson. Nid profiad dros dro oedd cwymp yr Ysbryd, ond esboniad ar y cyfan oedd yn dilyn.

Mae'r llais o'r nef yn aml yn cael ei esbonio gan esbonwyr fel *bath qol*, "merch y llais," sef adlais o lais Duw. Ond cred Morna Hooker nad yw hwn yn esboniad digonol. Holl bwynt Marc yw datgan fod y bwlch rhwng Duw a dyn wedi ei oresgyn ac felly nid llais eilradd yw hwn ond cyfarchiad Duw ei hun. Yr un yw neges y llais o'r nef, datgan pwy yw Iesu y mae. Dim ond Iesu sy'n clywed y geiriau, ond mae Marc hefyd am gynnwys y darllenydd yn y gyfrinach. Mae'r geiriau yn adleisio Salm 2:7 ac yn ddatganiad diamwys pwy yw Iesu.

Amhriodol yw defnyddio'r hanesyn hwn i geisio deall teimladau Iesu a'i gyflwr seicolegol, fel y ceisiodd rhai wneud. Yn bennaf oll, datganiad Cristolegol ydyw sy'n ein galluogi i ddeall gweddill ei lyfr. "Iesu yw'r un y disgynnodd yr Ysbryd, yr un y mae Duw yn fodlon ynddo, a'r un sydd mewn modd unigryw yn Fab Duw" (Morna Hooker, *The Message of Mark* Epworth 1983 td. 14).

(c) Y Temtiad. Cafodd yr hanesyn hwn ei orddefnyddio gan y rhai oedd yn awyddus i gyfansoddi bywgraffiad o'r Iesu. Ond nod Marc yw ceisio goleuo'r darlenydd ymhellach ynglŷn â phwy yw Iesu. Dylid deall y darn hwn yn erbyn cefndir y frwydr gosmig rhwng Iesu a Satan. Nid unrhyw fath o demtasiwn, fel ein temtasiynau ni yw hwn, ond fel y dywed adnod 12, brwydr ydyw rhwng y Meseia a'r Diafol, rhwng Ysrbyd Duw a grym y drwg. Dyna pam y byddai'n well ei alw yn ddydd y prawf. Yr anialwch oedd cartref y demoniaid ac atynt hwy y mae Iesu yn mynd i frwydro – i lys y gelyn. Y mae'r frwydr yn erbyn y Diafol yn mynd rhagddi, y mae ei gwymp yn agos ac adferiad y ddynoliaeth gerllaw. Gall gerdded gyda'r anifeiliaid gwylltion (er eu bod hwy yn arwyddo demoniaid weithiau) ac mae'r angylion yn gweini arno.

Nid yw Marc yn adrodd canlyniad y frwydr, ond mae'r holl efengyl yn adroddiad digamsyniol o fuddugoliaeth Iesu yng ngrym yr Ysbryd dros y Diafol.

Mae'r tair rhan allweddol i'r prolog yn ein gadael gyda darlun eglur, pwy oedd Iesu a beth oedd natur ei weinidogaeth. Mae dau beth yn clymu'r tair adran â'i gilydd. Yn gyntaf, mae'r tair yn digwydd yn yr anialwch; yn ail, grym

yr Ysrbyd. Mae'r cyfeiriadau at yr Ysbryd yn ddiddorol am mai ychydig iawn o son a geir amdano yng ngweddill yr efengyl. (Ar wahan i bennod 3). I Marc mae'r Ysbryd yn allwedd bwysig i ddeall pwy oedd Iesu a beth oedd waith. Bydd yn bedyddio gyda'r Ysbryd, cafodd ef ei hun ei fedyddio gan yr Ysbryd, ac yng ngrym yr Ysbryd yr ymladdodd y diafol. Amcan Marc yw cyhoeddi'r newydd da am Fab Duw, a bod Ysbryd Duw ar waith ynddo. O'r perpectif hwn mae deall popeth amdano. Yn enwedig wrth i ni geisio deall plygion digon anodd a digwyddiadau digon astrus ei fywyd.

Yn adnod 14, down yn ôl a'n traed ar y ddaear!

Y mae'r adran gyntaf hon yn bwysig hefyd er mwyn deall rhesymeg Marc dros drefnu gweddill y deunydd a ddefnyddiodd yn ei efengyl. O gymharu â Mathew ychydig o ddysgeidiaeth Iesu y mae'n ei gynnwys, ond ni ddylai'r gosodiad hwn ein dallu i'r ffaith bod llawer o ddysgeidiaeth Iesu yn caael ei chynnwys. Yr esboniad arferol am hynny yw nad oedd darnau fel y Bregeth ar y Mynydd a llawer o'r damhegion ddi ar gael iddo. Ond ni allwn fod yn sicr am hynny, yn enwedig o gofio mai un amcan sydd ganddo mewn golwg. Y mae ad.15 yn y bennod gyntaf yn datgan cynnwys ei ddysgeidiaeth ac am ei fod yn dilyn y prolog mae'n amlwg mai'r nod yw datgan bod Iesu nid yn unig yn cyhoeddi'r Deyrnas, ond hefyd ef yw'r Deyrnas. Felly yn union yn y darn dilynol lle dywedir wrthym fod Iesu yn dysgu fel un ag awdurdod ganddo. Y mae'r Ysbryd ar waith ynddo ef – dyma sail ei awdurdod.

Yr un modd mae Dameg yr Heuwr yn arwyddocaol fel patrwm ei ddysgeidiaeth. Mae'n drawiadol fod Marc wedi gwneud pwrpas y damhegion mor eglur ac eto mae llawer o esbonwyr yn gwrthod yr eglurhad. Fel dywed Mora Hooker, "Many have thought it incredible that Marc could realm only have believed that the purpose of the parables was to conceal the truth and to prevent repentance..." Pwrpas y damhegion yn ôl Marc yw cuddio'r gwirionedd oddi wrth y rhai y mae eu calonnau wedi eu caledu. Y mae'r cwestiwn pam na gyfyngodd Iesu ei bregethu i'r disgyblion yn unig yn wyneb y ffaith hon yn cael ateb yn nameg yr Heuwr. Argyhoeddiad Marc yw bod y gwrandawyr yn cael eu rhanedig ar ôl clywed Iesu, a dyfynnu eto o Morna Hooker, "On the one hand there are those to whom the secret of the Kingdom of God has been given; on the other, there are those 'outside', to whom everything is obscure." Rhennir y ddynoliaeth yn ddwy ar sail eu hymateb i Iesu; i'r disgyblion, y rhai sy'n derbyn awdurod Iesu, y rhoddir dirgelwch y deyrnas, ond i'r rhai oddi allan mae'r cyfan yn ddirgelwch. Ni ddylai'r ffaith bod yma bedwar math o bridd ein twyllo rhag gweld mai dim ond dau sydd yn bod mewn gwirionedd. Ond mae'r dau yma hefyd i'w deall yn erbyn cefndir y frwydr ehanach, y frwydr gosmig rhwng Iesu a Satan. Y mae'r damhegion eraill sy'n dilyn yn cadarnhau hyn. Trwy adrodd y damhegion hyn nod Marc yw wynebu ei ddarllenwyr gyda'r cwestiwn sylfaenol – beth yw eu hymateb hwy i'r Iesu.

Erbyn Cesarea Philipi ym mhennod 8 mae dysgeidiaeth Iesu wedi rhannu'r bobl yn ddau – un o'i blaid a'r llall yn ei erbyn. Ceir dysgeidiaeth i'w ddisgyblion a dysgeidiaeth mewn sefyllfaoedd o wrthdaro. Yr hyn sy'n eu gwahanu yw eu hagwedd at Iesu ei hun. Gellir crynhoi gwrthdaro i'r honiadau mawr mae Iesu yn ei wneud:

“Mae gan Fab y dyn awdurdod ar y ddaear i faddau pechodau” (2:10);
Deuthum i alw pechaduriaid, ac nid y cyfiawn” (2:17);
A all gwesteion y wledd briodas ymprydio tra bydd y priodfab gyda hwy” (2:19);
“Y mae Mab y dyn yn Arglwydd y Saboth hefyd” (2:28);
“A yw’n gyfrithlon gwneud da ar y Saboth, ynteu gwneud drwg, achub bywyd ynteu lladd?” (3:4).

Mae’n drawiadol fod pob un o’r dywediadau hyn yn ymwneud ag awdurdod Iesu – dyma sy’n esbonio’r gwrthdaro. Mae darlun Cristolegol Marc felly yn gorfodi ymateb. Felly, yn y cyd-destun hwn o gyfarch y disgyblion, pregethu i’r tyrfaoedd a herio’r gwrthwynebwyr mae deall dysgeidiaeth Iesu. Dyma sy’n rhoi unoliaeth i ddarlun Marc. Mae’n gwneud yn gwbl eglur i’w ddarllenwyr mai’r efengyl y mae Iesu yn galw ar bobl i ymateb iddi (1:15) yw’r efengyl amdano ef ei hun (1:1).

Mark 1:17-18
Dywedodd Iesu wrthynt, “Dewch ar fy ôl i, ac fe’ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.” A gadawsant eu rhwydau ar unwaith a’i ganlyn ef.”

NOD: Amlinellu natur yr alwad i fod yn ddisgybl er mwyn gwahodd y gwrandawyr i ddod yn ddisgyblion.

STRWYTHUR:
Rhagarweiniad:
Cyd-destun yr adnod

1. Credu yn Iesu yw cyfrinach bod yn ddisgybl (“dilyn fi”)
Beth yw ystyr y berthynas hon – yn sicr ni ddylid gwahanu geiriau Iesu oddi wrth ei berson. Mae ei dderbyn yn golygu derbyn pwy ydyw hefyd.
2. Pwrpas bod yn ddisgybl – gwaith i’w wneud, “fe’ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.”
3. Cost bod yn ddisgybl (“gadawsant eu rhwydau”). Her y cwestiwn a ydym ni yn barod i dalu’r pris. Ond beth yw hynny o gymharu a llawnder gorfoledd dyfodiad y deyrnas.

CASGLIAD:
A ydym gyda’r Iesu neu yn ei erbyn? Gydag ef neu gyda Satan?
Mae hwn yn gwestiwn parhaus.

EFENGYL LUC – IESU GWAREDWR Y BYD

Tasg anodd yw nodi un thema ganolog sy'n nodweddiadol o Luc. Gellid awgrymu nifer, a phob un mor ddilys a'i gilydd: efengyl y tlodion, efengyl y gwragedd, efengyl i wehilion cymdeithas, efengyl yr hanesion, ac yn y blaen. Efallai, fodd bynnag, bod un thema yn gwneud mwy o gyfiawnder â'r efengyl na'r lleill: ***Iesu Grist, Gwaredwr yr holl fyd.*** Y mae un peth yn sicr, fel gyda'r efengylwyr eraill, deunydd pregethau gan bregethwyr i'r pwrpas o'i pregethu yw'r deunydd a geir yn Luc hefyd. A dyfynnu o esboniad bychan, rhagorol, Donald Miller yn y gyfres Layman's Bible Commentaries:

> The nature of Luke's Gospel is indicated by the role of those for whom he got his materials. They were "ministers of the word" (1:2). They were heralds of the "good news" of what God had done for them in Jesus. It was their aim to retell some of Jesus' sayings and doings in such a way that those to whom they told them would likewise find God. The materials of Luke's Gospel, therefore, were first of all ***preached.***

Nodi ffeithiau'r "newyddion da" mae Luc, felly, er mwyn i genedlaethau eraill a phobloedd eraill ddod i gredu yn Iesu fel Gwaredwr. Yn hyn o beth mae ei neges yn debyg i bregethu'r Apostol Paul, a rhaid cofio y bu Luc yn gydymaith i hwnnw ar y teithiau cenhadol ac yn dyst i ryfeddod yr ymateb i bregethu'r efengyl i genedl-ddynion. Ei nod yw cynorthwyo ymateb ffydd, ufudd-dod, gwasanaeth ac addoliad yng nghalonnau'r gwrandawyr.

CEFNDIR A PHWRPAS

Cyflwynir y cyfrolau (yr Efengyl a'r Actau) i rywun o'r enw Theophilus (1:3). Fel mae'r enw Groegaidd yn ei awgrymu cenedl-ddyn ydoedd ac fel mae'r gair "ardderchocaf yn ei fynegi, yr oedd yn ŵr o gryn safle yn y gymdeithas. Arfer cyffredin yn nyddiau Luc oedd cyflwyno cyfrol i unigolyn er ei bod wedi ei hamcanu at gylch eang. Un yn cynrychioli'r cylch hwnnw ydoedd Theophilus – felly, targedu cylch o genedl-ddynion deallus a diwylliedig yn y ganrif gyntaf oedd pwrpas Luc. Mae'r ffaith bod y rhagymadrodd wedi ei ysgrifennu mewn Groeg seciwlar llenyddol a safonol yn cadarnhau hynny.

Yr oedd Theophilus hefyd yn amlwg yn gwybod rhywbeth am y ffydd Gristionogol. Yn 1:4 dywedir yn y BCN bod ganddo "wybodaeth" – yn wir, mae'r gair gwreiddiol *κατηχηθης* yn cyfleu mwy na hynny, golyga rywun sy'n cael ei holwyddoli am gynnwys y ffydd. Ai rhywun yn paratoi am aelodaeth eglwysig felly, oedd Theophilus? Mae'n amlwg y gwyddai rywbeth am y ffydd, ond yr oedd angen llawer mwy o baratoad a phrawf o ddilysrwydd y Ffydd Gristionogol.

Am ba reswm y ceisiodd y cenedl-ddyn deallus hwn fwy o brawf o ddilysrwydd Cristionogaeth? Mae dau ateb yn cynnig eu hunain: yn gyntaf, yr oedd cynnydd aruthrol cwlt addoli'r Ymerawdwr yn yr Ymerodraeth yn achosi pryder mawr. Galwyd yr Ymerawdwr yn "waredwr," "mab duw," ac hyd yn oed "arglwydd" a "duw." Yr oedd honiadau mawr yn cael eu gwneud am alluoedd rhai fel Awgwstws i gyflawni gwyrthiau iachau a galwyd y pardwn a roddai i droseddwyr yn "efengyl," sef yr un gair ag a ddefnyddiwyd yn y TN am yr Efengyl Gristionogol.

Amcan Luc oedd cyflwyno i'r cenedl-ddyn hwn, ac i eraill tebyg iddo oedd yn chwilio am iachawdwriaeth, yr Iesu ac nid Cesar fel nod yr ymchwil hwnnw. Felly, gosodir genedigaeth Iesu mewn perthynas â Cesar Awgwstws (2:1) a dechrau ei weinidogaeth gyda theyrnasiad Tiberius Cesar (3:1). Y nod yw cadrnhau cyffes gynnar yr eglwys fore, "Iesu yw'r Arglwydd" (Phil 2:11; Rhuf 10:9; 14:9). Yr oedd erlid ar ddod yn hanes yr eglwys ac yr oedd yn rhaid i bobl wynebu'r dewis, naill ai cydnabod Cesar yn arglwydd neu gyffesu "Iesu yw'r Arglwydd."

Yr ail her oedd wynebu'r sefyllfa newydd a gyfododd gyda dinistr y deml a chwalu Iddewiaeth ar ôl y Rhyfel Iddewig rhwng 66 – 70 O.C. Os oedd Iddewiaeth wedi ei dymchwel, onid oedd yn rhesymol i'r cenedl-ddyn dybio bod Cristnogaeth yn yr un cwch, gan mai allan o Iddewiaeth y daeth honno? Ateb clir Luc yw, Nag oedd. Gwrthod y Meseia a wnaeth yr Iddewon ac am hynny y daeth y dinistr hwn arnynt. Yr oedd dinistr yr Iddewon yn brawf diamheuol o farn Duw arnynt am fethu ac adnabod cenhadaeth Duw ar eu cyfer. Cristnogaeth felly oedd gwir etifedd ffydd yr Hen Destament.

Y THEMA GANOLOG



Darllen Luc 4: 16 – 30

Nodwedd arbennig Efengyl Luc yw ei phwyslais cryf ar natur fyd-eang y Ffydd Gristionogol. Nid oes yng Nghrist "Iddew na Groegwr" (Gal 3:28) yw ei bwyslais ac o gân Simeon lle dywedir mai Iesu yw "goleuni'r cenhedloedd" (2:32), i'r cyfarfyddiad olaf rhwng Iesu a'i ddisgyblion pan ddywedodd wrthynt fod yn rhaid pregethu "edifeirwch a maddeuant pechodau ... yn ei enw ef i'r holl genhedloedd" (margin y BCN). Mae efengyl yn newyddion da i'r holl genhedloedd ac nid i'r Iddewon yn unig.

Er mwyn cadarnhau hyn gadawodd Luc lawer o gyffyrddiadau Iddewig sy'n nodweddiadol efengyl Mathew (e.e. y deunydd ym Mathew sy'n delio gyda pherthynas Iesu â'r Gyfraith Iddewig – Math 5:21-48; 6:1-8,16-18). Olrheiniodd achau Iesu nid i Abraham (fel y gwna Mathew) ond i dad yr holl ddynoliaeth, Adda (3:23 – 38). Ni chynhwysodd Luc ddywediadau Iesu a geir ym Mathew am gyfyngu'r genhadaeth i "ddefaid cyfrgolledig Ty Israel" yn unig.

Mae'r cyfan yma hefyd yn erbyn cefndir y ffaith i Luc ysgrifennu cyfrol arall lle ceisir dangos y modd y lledaenodd y genhadaeth o Jerwsalem i Rufain. Yn honno croniclir y frwydr yn erbyn culni Iddewig (Actau 15 a Galatiaid 2). Ei nod yw dangos mai oddi wrth Iesu ei hun y daeth y cymhelliad i'r genhadaeth i'r cenhedloedd. "Newyddion da" Duw i'r holl fyd ydoedd!

Daw hyn i'r amlwg yn ail hanner y darlleniad pan gyhoeddodd Iesu nad oes dim croeso i broffwyd yng ngwlad ei febyd. Felly yr oedd pethau yn oes Elias ac Eliseus.

Enghraifft arall o neges fyd-eang Iesu yn ôl Luc yw'r lle amlwg a rydd i hanes y Samariaid. Am resymau gwleidyddol a chrefyddol ystyriai'r Iddewon hwy yn anwareiddiedig ac y tu hwnt i gyfathrach. Ond mae Luc yn awyddus i ddangos fel y gweithiai Iesu yn eu plith. Gweler 9:51-56; 17:11 a dameg y Samariad trugarog,10:25-37 ac 17:11-19. Darlunnir y Samariaid fel esiamplau o gymdogion cywir ac o ddiolchgarwch diffuant. Yr oeddent am hynny yn nes i Deyrnas Dduw na llawer Iddew hunangyfiawn. Enghreifftir hyn ymhellach yn Actau'r Apostolion gyda'r gwrthdaro a gododd yn dilyn cenhadaeth Philip (Actau 8) a Paul (pen. 9). Yr oedd Luc yn awyddus i gadarnhau'r pwynt bod y genhadaeth i'r cenhedloedd wedi ei gwreiddio ym meddwl Crist ei hun.

Cofier, fodd bynnag, nad yw Luc yn wrth-semitiadd. Ef yn unig sy'n adrodd am enwaediad Iesu a'i ymweliad â'r Deml pan yn ddeuddeg oed. Ganddo ef hefyd y ceir hanes yr Iddewon duwiol fel Anna a Sachareias ac Elisabeth oedd ymhlith y ffyddloniaid oedd yn chwilio am gysur i Israel. Yr oedd Iesu yn gyflawniad proffwydoliaethau'r HD.

EFENGYL Y COLLEDIG



DARLLEN: 7:36 – 50; 15: 1 – 32; 18: 9 – 14; 19: 1 – 10.

Yn unol â'i bwyslais ar Iesu yn achub pob math o ddynion mae Luc yn awyddus i ddangos cariad arbennig Crist tuag at y rhai sydd y tu allan i gylch y pwysigion. Ceir yr un pwyslais yn niwinyddiaeth Paul: "Pan amlygwyd daioni Duw, ein Gwaredwr, a'i gariad tuag at ddynion, fe'n hachubodd ni, nid ar sail unrhyw weithredoedd o gyfiawnder a wnaethom ni, ond o'i drugaredd ei hun. Fe'n hachubodd ni trwy olchiad yr ail-enedigaeth ac adnewyddiad gan yr Ysbryd Glân, a dywalltodd ef arnom ni yn helaeth trwy Iesu Grist, ein Gwaredwr. Ei ddiben oedd ein cyfiawnhau trwy ei ras a'n gwneud mewn gobaith yn etifeddion bywyd tragwyddol" (Titus 3:4 – 7).

EFENGYL Y TLODION



Darllen Luc 12:13-21; 16:19-31

O'r Efengylau i gyd, y mae Luc yn rhoi mwy o amlygrwydd i beryglon cyfoeth ac yn dyrchafu lle y tlodion. Ganddo ef yn unig ceir dameg yr Ynfytun Cyfoethog a geisiodd borthi ei enaid ar "feddiannau" yn unig. Y cwestiwn mae'r ddameg honno yn ei godi yw, "Pwy sydd berchen dy enaid?" Ai tydi, ynteu'r ysgyboriau mwy. Fel y dywedodd rhywun, "meistri caled yw'r ysguboriau mwy." Tra'n meddwl ei fod yn rhydd i wneud yr hyn a fynnai â'i enaid, yr oedd mewn gwirionedd yn gaeth i alwad y meddiannau. Y mae stori diofalwch y dyn cyfoethog am Lasarus yn amlygu gwrthgyferbyniad llwyr gyda hanes Sacheus (19:1-10), sy'n rhoi hanner ei holl eiddo i'r tlodion fel ymateb ffydd yn Iesu.

A dyma yw pwynt Luc. Iesu Grist sy'n gwneud y gwahaniaeth i fywydau. Yn union fel y proffwydodd Mair, "llwythodd y tlodion â rhoddion, ond anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw" (Luc 1:53). Dyma gymhwyso dysgeidiaeth Iesu at broblem fawr materoliaeth ymysg y cenedl-ddynion. Yr oedd yr athronwyr Groegaidd, y Stoiciaid, wedi pwysleisio nad oedd lle i gyfoeth ac y dylai dynion anwybyddu arian oherwyd bod y pethau hyn yn annheilwng o'r natur ddynol. Gwahanol iawn oedd rhesymau Iesu. Perygl cyfoeth yn ei farn ef oedd gwthio Duw allan o ganol ein bywydau a'n troi yn eilunaddolwyr. Y mae dyn bob amser yn ymdebygu i'r ddelw y mae yn ei addoli. Dyma'n union mae Paul yn ei bwysleiso pan alwodd gybydd-dod yn eilunaddoliaeth (Col. 3:5) a "ariangarwch" yn "wreiddyn pob drygioni" ac yn y diwedd yn arwain pobl oddi wrth y ffydd (1 Tim 6:10).

YR EFENGYL A'R GWRAGEDD

Rhoddir amlygrwydd i wragedd yn Efengyl Luc. Yn wahanol i Mathew sy'n canolbwyntio ar Joseff yn hanes y geni, mae Luc yn canolbwyntio ar Mair. Ganddo ef yn unig y ceir hanes y broffwydes Anna (2:36-38); Iesu a' wraig bechadurus (7:36-50) a'r wraig a fu'n glaf am 18 mlynedd (13:11-13); perthynas Iesu gyda Mair a Martha (10:38-42); a'r ddwy ddameg gyda gwragedd yn brif gymeriadau (15:8-10; 18:1-8). Ceir mwy o fanylion ganddo hefyd yn y straeon cyfarwydd. Hyn i gyd yn awgrymu eto bod yr efengyl hon wedi ei hanelu ar y byd cenhedlig am fod mwy o ryddid i wragedd yn eu mysg nag ymhlith yr Iddewon.

EFENGYL YR YSBRYD GLÂN A GWEDDI

Ceir mwy o bwyslais yn Luc ar waith yr Ysbryd ym mywyd a gweinidogaeth Iesu ac yn y gymuned Gristionogol nac yn yr efengylau eraill. Cyfeirir at waith yr Ysbryd ym mywydau pobl gyffredin ac eraill fel Ioan

Fedyddiwr (1:35,41,67;2:25). Dechreuodd Iesu ei weinidogaeth gyhoeddus yn nerth yr Ysbryd (4:14) a dehonglodd ei weinidogaeth yng ngoleuni geiriau'r proffwydi (4:18). Yn hytrach na'r "pethau da" y mae Mathew yn son amdanynt fel ffrwyth gweddi y mae Luc yn cyfeirio at yr "Ysbryd Glân (Math 7:11 a Luc 11:13). Gorchmynnir i'r disgyblion aros yn Jerwsalem nes "eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth" (24:49).

Ynghlwm wrth y pwyslais hwn ar yr Ysbryd mae Luc yn pwysleisio lle amlwg gweddi. Cysylltir gweddi â digwyddiadau amlwg ym mywyd Iesu: y bedydd (3:21); galw'r disgyblion (6:12); y Gyffes Fawr (9:18); y Gweddnewidiad (9:28); gwadiad Pedr (22:31-34); dameg y Pharisead a'r Publican (18:9-14). Unwaith yn rhagor mae pwylais Luc yn debyg iawn i Paul.

NODWEDDION LUC AR GYFER PREGETHU

Yn ychwanegol at y nodweddion a restrwyd uchod, mae Luc yn arbennig ymhlith yr holl efengylwyr am ei ddawn i adrodd stori. Mae dameg y Mab Afradlon a hanes y ddau ar y ffordd i Emaus yn brawf o hynny. Dylai pob pregethwr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd y grefft o adrodd stori yn fywiog a diddorol. Rhestrir isod y gwahanol ddulliau o gyflawni hyn:

1. **Adrodd y stori yn union fel y mae hi yn y Beibl.**
   Gellir gwneud hynny mewn modd dramatig ac hynod o effeithiol gyda rhai o straeon amlycaf y Beibl, e.e. Elias ar Fynydd Carmel neu Jacob ym Methel ac ym Mheniel. Y pwynt sylfaenol yw fod y straeon hyn yn werth eu hadrodd fel ag y maent am eu bod yn ddieithr i lawer iawn o bobl mwyach. Mae hanes y ddau ar y ffordd i Emaus yn gyffrous a heriol ac wedi ei adrodd, nid oes angen gwneud mwy na phwysleisio y gwirionedd syml bod cyfarfod â'r Iesu byw yn gallu newid bywydau pobl yn llwyr.

2. **Adrodd stori fel llygad-dyst.**
   Dyma'r dull o adrodd stori fel pe baech chi ymhlith y gwrandawyr gwreiddiol. Yr hyn sy'n hanfodol bwysig i'r dull hwn yw na ddylid ar unrhyw gyfrif grwydro ymhell oddi wrth y naratif Beiblaidd, neu fe ddibrisir y dull yn llwyr. Dyma pam fod gwneud y gwaith palu o ddarllen esboniadau yn hanfodol bwysig. Rhaid deall y darn yn ei gyd-destun i ddechrau.

   Un enghraifft posibl yw Actau 16:16 ymlaen.

   Gellid adrodd y stori hon o berspectif Ceidwad y Carchar, neu Paul a Silas neu Luc, neu berchnogion y ferch ag ysbryd dewiniaeth.

   Un enghraifft arall yw Actau 12: 1-19 a gellid trefnu'n deunydd ar ffurf grid fel a nodwyd eisoes. Mae'r darn yn bwysig am ei fod yn darlunio ymateb yr eglwys mewn sefyllfa neilltuol:

- o Y cefndir yw'r cyfnod anodd hwnnw yn hanes yr eglwys – erlid y cyfeirir ato yn Actau 11:19 a 12:1-5.
- Ymateb yr eglwys oedd gweddi.
- o I ba raddau yr oeddent yn credu yr atebid eu gweddiau (cymharer ad 5 a 15)?
- o Y waredigaeth wyrthiol a methiant yr eglwys ar y dechrau i gredu hyn
- Y cyngor i ddatgan hyn wrth bawb.

Gall y stori gael ei hadrodd o safbwynt Herod, Pedr, Mair, Rhoda neu un o'r credinwyr.

3. Adrodd Stori sy'n crisialu neges y darn o dan sylw.

Mae enghreifftiau lu o'r dull hwn – rhai yn fwy llwyddiannus nac eraill. Dyna stori Cwrdd Diolchgarwch Samuel Jones yn y *Llwybr Arian* gan Tegla Davies. Mae'n effeithiol am eu fod yn cyfleu neges diolchgarwch Cristionogol mewn dull hynod o syml ac yn drawiadol. Habacuc 3:17ymlaen yw'r testun, ac mae'r stori yn cyfleu neges y darn yn effeithiol iawn.

Gellir defnyddio stori y Pharisead a'r Publican.

PREGETHU O IOAN

O ddarllen y Bedwaredd Efengyl fe'n trewir ar unwaith gan y gwahaniaeth sydd rhyngddi a'r tair arall. Yn yr Efengylau Synoptaidd, mae gweinidogaeth gyhoeddus Iesu yn canoli ar Galilea, ac nid yw'n ymweld â Jerwsalem ac eithro yn ystod wythnos olaf ei fywyd; yn Efengyl Ioan mae'n ymweld â Jerwsalem droeon. Mae Ioan yn gosod hanes Glanhau'r Deml **ar ddechrau** gweinidogaeth Iesu, ac yn dyddio'r Swper Olaf a'r Croeshoeliad ddiwrnod **cyn** y Pasg. Mae'n hepgor llawer o'r hanesion Synoptaidd, e.e. Geni, Bedydd, Temtiad, Gweddnewidiad, Sefydlu'r Eucharist, Ing yr Ardd. Ond mae'n ychwanegu llawer atynt hefyd : storïau am Nicodemus, y Wraig o Samaria, Lasarus, y Prawf gerbron Annas, y Golchi Traed etc. Hefyd, yn y Bedwaredd Efengyl mae'r modd yr ymdrinir â'r gwyrthiau yn wahanol. Nid "gweithredoedd nerthol" mohonynt, ond "arwyddion" ac y mae Ioan yn eu clymu ag ymddiddanion maith – mor wahanol i'r dywediadau bachog, epigramatig sy'n fwy nodweddiadol o'r Efengylau Synoptaidd.

Mae rhai esbonwyr wedi awgrymu bod Ioan yn ddibynnol ar un neu ragor o'r Efengylau Synoptaidd mewn ambell adran. Ond go brin fod angen sôn am ddibyniaeth – gellir egluro'r tebygrwydd achlysurol trwy haeru bod Ioan fel hwythau wedi tynnu oddi ar yr un traddodiad llafar. Mae llawer o esbonwyr bellach o'r farn y ceir y tu ôl I Ioan draddodiad am fywyd a dysgeidiaeth Iesu sy'n annibynnol ar yr Efengylau Synoptaidd, ond sydd, serch hynny, yn draddodiad cynnar, wedi ei wreiddio ym Mhalesteina. Oddi ar darganfod Sgroliau'r Môr Marw daethpwyd i sylweddoli fod yr ieithwedd a roddir ar wefusau Iesu gan Ioan yn gwbl gartrefol ym Mhalesteina'r ganrif gyntaf. Ac y mae archaeoleg hefyd wedi gwireddu rhai o'r manylion a geir yn Ioan, e.e. y cyfeiriadau at Lyn Bethesda, Llyn Siloam, Porth Solomon, Gabbatha, etc. Y tebyg yw, felly, i Ioan gael ei ddeunydd o draddodiad annibynnol sy'n adlewyrchu gwybodaeth ddilys am Balesteina yn y ganrif gyntaf.

AWDUR.

Dyma gwestiwn anodd ei setlo'n derfynol. Mae traddodiad cynnar yr Eglwys yn cysylltu'r Bedwaredd Efengyl â Ioan "disgybl yr Arglwydd". Dyna oedd barn Irenaeus (a gawsai ei wybodaeth gan Polycarp), tuag O.C. 180 : "Yna, cyhoeddodd Ioan – disgybl yr Arglwydd, a orweddai ar ei fynwes – yr Efengyl ei hunan pan oedd yn trigo yn Effesus." Ychwanega fod Ioan wedi byw yno hyd gyfnod Trajan (98-117). Erbyn tuag O.C. 200 felly, deëllid mai Ioan fab Sebedeus oedd yr awdur.

Cred rhai fod tystiolaeth fewnol yr Efengyl ei hun yn ategu hynny. Dywed 21.24 mai'r "Disgybl Annwyl" oedd awdur "y pethau hyn". Y ddamcaniaeth fwyaf tebygol, meddir, yw mai Ioan fab Sebedeus oedd y Disgybl Annwyl (gw. 13.23, 19, 26, 20.2, 21.7, 21.20, 21.24) ac mai ystyr "y pethau hyn" yw'r Efengyl gyfan. Dim ond unwaith yr enwir Ioan fab Sebedeus yn yr Efengyl gyfan (21.2). Mae hynny'n beth syn o gofio'i amlygrwydd, onibai bod ei enw wedi'i guddio yn yr ymadrodd "y Disgybl Annwyl".

Mae'n ymddangos, felly, mai Iddew oedd yr awdur. Mae'n gwybod yn dda am Iddewiaeth (e.e. 5.10, 7.22, 7.51, 8.17) ac yn adnabod daearyddiaeth Palesteina (e.e. 5.1, 19.13). Mae'n ddigon hyf ar dro i gywiro'r traddodiad Synoptaidd (e.e. ar gwestiwn dyddiad y Swper Olaf a'r Croeshoeliad). Go brin y gwnâi neb arall hynny ond un o'r apostolion.

Mae'r dystiolaeth fewnol ac allanol, felly, yn awgrymu y dylid cysylltu'r Bedwaredd Efengyl mewn rhyw fodd â Ioan Fab Sebedeus. Mae'r dystiolaeth allanol hefyd yn awgrymu iddi gael ei hysgrifennu yn Effesus, lle roedd Ioan yn byw yng nghyfnod Trajan.

OND mae ysgolheigion eraill yn amau'r dystiolaeth hon. Ar wahân i Irenaeus, nid oes unrhyw dystiolaeth arall i'r ffaith fod mab Sebedeus erioed wedi ymweld ag Effesus. Hyd yn oed pe bai'n byw yno, byddai'n hen iawn erbyn cyfnod Trajan (O.C. 98-117) ! Mae'n amheus iawn, meddir, mai gwaith apostol oedd y Bedwaredd Efengyl o ystyried bod ei thystiolaeth mor wahanol i dystiolaeth yr Efengylau Synoptaidd.

Mae ambell un yn ceisio dod dros ben yr anhawster trwy haeru bod cymysgu wedi bod rhwng dau berson yn dwyn yr un enw, ac mai Ioan arall oedd y gŵr a adwaenai Polycarp yn Effesus, **nid** Ioan fab Sebedeus, ond yn hytrach Ioan yr Henuraid. Ceir cyfeiriad yng nghwaith Papias, O.C. 63-130, Esgob Hierapolis yn Asia Leiaf, at ŵr yn dwyn yr enw Ioan yr Henuriad a drigai yn Effesus yn niwedd y ganrif gyntaf. Awgrymodd rhai mai'r Ioan hwn oedd awdur y Bedwaredd Efengyl, ond rhaid cydnabod mai dyfaliad pur ydyw. Ymgais ydyw i ddiogelu'r cyswllt â Ioan fab Sebedeus ond hefyd i ddod dros ben yr anhawster sydd ynghlwm wrth y gred bod y Bedwaredd Efengyl yn waith gan un a oedd yn apostol. Ioan yr apostol wedyn fyddai'r "tyst" o'r tu cefn i'r Bedwaredd Efengyl ond Ioan yr Henuraid fyddai'r awdur.

DYDDIAD.

Mae'r rhan fwyaf o esbonwyr o'r farn iddi gael ei chyfansoddi **cyn** tuag O.C. 110. Mae dau brif reswm dros nodi'r dyddiad hwn. Yn gyntaf mae'r llawysgrif gynharaf o rannau o'r Bedwaredd Efebgyl i'w dyddio yn eithaf cynnar yn yr ail ganrif. Yn ail, mae rhai o'r farn fod Ignatius o Antioch, a ysgrifennai tuag O.C. 110, wedi defnyddio'r Bedwaredd Efengyl.

Y tebyg yw iddi gael ei hysgrifennu gryn dipyn yn gynharach na O.C. 110. Ond faint yn gynharach? Mae'n debygol iddi gael ei chyfansoddi rywbryd ar ôl O.C. 70 (er na cheir unrhyw gyfeiriad at gwymp Jerwsalem ynddi). Mae eschatoleg gyflawnedig yr Efengyl yn awgrymu cyfnod pan oedd y disgwyliad am ddyfodiad y Diwedd wedi cilio i'r cefndir rywfaint. Hefyd, ceir yr argraff wrth ddarllen yr Efengyl fod Cristnogion wedi cefnu ar y synagogau. Mae hynny'n awgrymu cyfnod ar ôl O.C. 85. Ond y mae gair o rybudd yn ei le : y mae'n anodd iawn rhoi unrhyw ddyfarniad terfynol ar ddyddiad y Bedwaredd Efengyl.

CEFNDIR SYNIADOL Y BEDWAREDD EFENGYL.

Go brin y gellir rhagori ar yr arolwg a geir ar y thema hon yng ngwaith A.M. Hunter, *According to John*, tt. 23-35. Argymhellir pob myfyriwr i ddarllen y bennod hon. Ynddi y mae'n gosod y Bedwaredd Efengyl yn erbyn cefndir.

A Athroniaeth Roegaidd
B Gnosticiaeth – Docetiaeth, Mandeaeth
C Iddewiaeth Palesteina
Ac CH Sgroliau'r Môr Marw.

PRIF RANIADAU'R BEDWAREDD EFENGYL.

1) **Prolog** : 1.1-18. Nid atodiad i'r Efengyl mohono, ond rhan annatod ohoni, oherwydd y mae llawer o brif syniadau'r Prolog, megis Bywyd, Goleuni a Gogoniant yn cael mynegiant yng nghorff yr Efengyl. Wrth ddefnyddio'r term Logos = "Gair" y mae'r awdur yn gallu gosod Person Crist yn erbyn dau gefndir gwahanol yr un pryd, oherwydd yr oedd "Logos" yn derm technegol pwysig iawn mewn athroniaeth Helenistaidd (e.e. gan y Stoiciaid), a hefyd yn derm pwysig iawn ym mherthynas dyn a Duw yn llenyddiaeth yr Hen Destament.

2) **Yr Arwyddion**. Yn draddodiadol, rhestrir saith arwydd :
   (i) Troi'r dŵr yn win yng Nghana 2.1-12
   (ii) Iachâu Mab y Swyddog 4.43-54
   (iii) Yr Iacháu wrth Lyn Bethesda 5.1-18
   (iv) Porthi'r Pum Mil 6.1-15
   (v) Cerdded ar y dŵr 6.16-21
   (vi) Iacháu Dyn Dall o'i Enedigaeth 9.1-12
   (vii) Cyfodi Lasarus 11.1-16

   Yn fynych mae Ioan yn gwneud yr "arwydd" yn gyfle i gyflwyno Ymddiddanion gweddol faith yn traethu ar arwyddocâd yr arwydd.

3) **Yr Ymddiddanion Olaf**.
   Pinacl a chyflawnder yr holl arwyddion yw'r Groes. Ond yn yr achos hwn ceir yr Ymddiddan yn rhagflaenu'r arwydd. Croniclir yr Ymddiddan yng nghefndir y Swper Olaf.

4) **Y Dioddefaint a'r Atgyfodiad**.
   Y Groes yw'r modd i "ddyrchafu" Iesu, ac ar yr un pryd mae'n fodd i ddwyn pawb ato. Yno y mae'r byd yn cael ei farnu. Yno hefydd caiff Crist ei ogoneddu. A'r Atgyfodiad yw'r achlysur pan amlygwyd y gogoniant i'r apostolion.

LLYFRAU.

William Barclay, *The Gospels and Acts*, (Vol. 2) (S.C.M.) tt. 108-190
A.M. Hunter, *According to John*, (S.C.M.) tt. 23-77.
G R Beasley-Murray, Word Biblical Commentary, John, Waco, 1987.

“Fel mae’r Tad wedi fy anfon i yr wyf innau yn eich anfon chwi” (20:21)

Dyma warant y pregethwr dros bregethu’r Efengyl. Un wedi ei anfon ydyw gyda neges oddi wrth yr Anfonwr. Fel yr anfonwyd Iesu oddi wrth y Tad, y mae’r pregethwr yntau yn cael ei anfon yn enw Iesu i gyhoeddi ei air a’i wirionedd. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y genhadaeth hon oherwydd credai Ioan fod Iesu yn Waredwr yr holl fyd – y mae iddo arwyddocad cosmig. Er i’r Efengylwyr eraill i ryw raddau bwysleisio’r gwirionedd hwn, Ioan yn unig sy’n rhoi ffrâm ddiwinyddol gynhwysfawr i’r weledigaeth hon. Yng ngeiriau yr esboniwr C K Barrett:

> Each of the evangelists begins his work by tracing back the activity of Jesus to Its origin (‘arche’): Mark to the work of the Baptist and the baptism of Jesus, with the decent of the Spirit and the divine pronouncement, Thou art my Son; Mathew and Luke to the birth of Jesus from a virgin; John to the creation, and beyond it. Each intends to prepare his readers for understanding the ensuing narrative; Jesus can be understood only as Messiah, as Son of God, and as Logos. ***John alone, however, gives the narrative about Jesus an absolute theological framework.*** (*The Gospel According to John,* 1955, td 25).

Yr allwedd i’r ddiwinyddiaeth honno yw’r Crist neu’r Logos – y Gair tragwyddol a ddaeth yn gnawd; neu y cysylltiad anatod rhwng y Gair oedd yn bod cyn y dechreuad (1:1) a’r Gair a ddaeth yn gnawd (1:14). “Linking the destiny of the whole creation to the resurrection of the incarnate and crucified Logos, the Gospel thus sweeps from eternity to eternity,” Carl F H Henry. Y mae holl themâu eraill Ioan yn tarddu a deillio o’r un man hwn. Iesu Grist yw canolbwynt Efengyl Ioan a’r allwedd i ddeall ei neges.

CRISTOLEG IOAN



Darllen Ioan 1: 1-18.

Gosodir y seiliau i bopeth a geir yn yr Efengyl hon yn y Prolog**.** Dyma’r canolbwynt syniadol mae popeth arall yn deillio ohono. O’r deunaw adnod cyntaf mae goleuni yn disgleirio sy’n treiddio trwy’r cwbl sy’n dilyn. Yn y Prolog hwn ceir emyn i’r Logos sy’n datgan tarddiad a phwrpas a hefyd lefel gosmig cenhadaeth y Tad. Mae’r cynfas yn eang ac yn ymdrin â phynciau fel tarddiad ac ystyr y cread; pa fodd y cawn wir fywyd a pha fodd y gallwn weld Duw. Yr ateb i’r holl gwestiynau hyn yw, Iesu Grist.

Iesu yw canolbwynt Efengyl Ioan o’r cychwyn i’r diwedd – fe’i ceir ymhob golygfa. Ef yw’r allwedd i’r holl gwestiynau hyn. A rhan bwysig o’r darlun yw’r ymateb a geir iddo, boed yn negyddol fel yr Iddewon neu yn gadarnhaol fel y wraig o Samaria. Nid oedd hawl gan y gwrandawr i eistedd

yn niwtral, y mae'n yntau yn cael ei dynnu i mewn i'r stori a'i orfodi i ymateb i'r Crist.

(a) **Datguddio Duw** : Egyr y Prolog trwy ddatgan yn ddigamsyniol bod y Gair yn Dduw. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair... a Duw oedd y Gair." Ceisiodd rhai gyfieithu'r cymal olaf fel hyn: "ac yr oedd y Gair yn ddwyfol." Ond nid yw gramadeg y Roeg yn caniatau yn fath gyfieithiad. Y mae'r Logos nid yn unig yn cydfodoli efo Duw, ond y mae yn Dduw o ran ei natur. Mae'r geiriau yn fwriadol yn adleisio Genesis 1:1 ac mae'r berfau "ginomai" ac "egeneto" a ddefnyddir am ddynion yn gwbl wahanol i'r ffurf a ddefnyddir amdano ef, sef "eimi" (= bod). Mewn geiriau eraill, mae Ioan am bwysleisio, unigrywiaeth Crist. Ni fynegir hyn yn well yn unman nag yn y dywediad trawiadol: "Cyn geni (*genesthai*) Abraham, yr wyf (*egô eimi*) fi" (8:58). Yn y geiriau hyn y mae Iesu yn hawlio **cynfodolaeth**. Y mae efe o dragwyddoldeb ac felly yn Dduw.

Trwyddo ef hefyd y crewyd y ddaear. Ef yw'r cyfrwng i waith y creu. "A **dywedodd** Duw, Bydded goleuni." Y llefaru dwyfol hwn yw'r Gair genau yr Arglwydd ac nid oes wahanu rhwng gweithgarwch y naill a'r llall. Awgrym cryf hyn i gyd yw fod perthynas agos rhwng Duw a'i Logos. Ond cofier bod y geiriau yn dangos hefyd eu bod y fodau ar wahân.

Mae'r gair Logos ei hun yn ddiddorol ac wedi bod yn destun cryn ymchwil. Ond daeth ysgolheigion diweddar i'r casgliad mai yn erbyn cefndir yr HD y dylid ei ddehongli yn hytrach nac yn erbyn cefndir athroniaeth Roegaidd. Gair Duw yn y Beibl yw'r grym hwnnw sy'n gyfrifol am ei weithgarwch creadigol (Salm 36:6, "Trwy air yr Arglwydd y gwnaed y nefoedd") yn ogystal â'i waith achubol, ("Anfonodd ei air ac iachaodd hwy a gwaredodd hwy o ddistryw" Salm 107:20). Llefarodd y proffwydi air yr Arglwydd, a thrwy y gair daw Israel i adnabod yr Arglwydd. Try'r Gair felly yn gyfrwng hunan-ddatguddiad Duw a'r ffordd y dewisodd gyfathrebu â'r byd. Yr hyn sy'n syfrdanol yw bod Ioan yn datgan "a daeth y Gair yn gnawd" (*kai ho logos sarx egeneto*).

Dyma thema fawr y Prologa rhywbeth nas ceir yn unman arall mewn Iddewiaeth nac yn y byd Groegaidd. Y mae Iesu o Nasareth yn mynegi Gair terfynol Duw i'r byd, Efe yw uchafbwynt y datuddiad hwn. Mae'r gair a ddefnyddir yn ad. 14(a) yn awgrymog am ei fod yn adleisio y gair "tabernacl." "Preswylio" neu "dabernaclu" yn ein plith y mae Duw ym mherson Iesu. Dyma wirionedd anhygoel. "Ni welodd neb Dduw erioed...ond yr unig Un, ac yntau'n Dduw (neu, yr uniganedig Fab) efe a'i gwnaeth yn hysbys" (ad 18).

I Ioan y man mwyaf arwyddocaol y datguddir Duw yw ym marwolaeth Iesu. At y munudau dwys hyn y mae holl gyfeiriadaeth Ioan at "ddyrchafu Mab y Dyn" ac "yr awr hon" a "gogoneddir" (3:14 a 8:28 a 12:23). Pan godir Mab y Dyn ar y groes mae'n cyflawni ei genhadaeth o ddatguddio cariad achubol Duw tuag at y byd (8:28).

(b) **Cyflawni Gwaredigaeth Duw.**

Rhan allweddol o Gristoleg Ioan yw'r dywediadau "myfi yw" (*egô eimi*). Yn yr enw hwn y datguddiodd Duw ei hun i Moses yn y berth yn llosgi. Yn Iesu, felly, y mae Duw yn bresennol gyda'i bobl. Nid datgan ei fod yn cynnig bywyd, ond ef ei hun yw'r bywyd. Trwy ei adnabod ef daw'r credadyn i feddu gwir fywyd, bywyd tragwyddol. Fel y dywedodd Pedr: "Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennyt ti" (6:68). Iesu ei hun yw'r bywyd.

Ar y groes cwblhawyd y gwaith achubol pan lefarodd Iesu y gair *tetelesthai* (“Gorffenwyd”).

(c) **Y Paracletos** – yr Ysbryd Glân.

Arwyddocâd y Paracletos yw ei fod yn rhoi ir gymuned Gristionogol yr hyn a roddodd Iesu i’w ddisgyblion – ei bresenoldeb dwyfol. Yn yr ystyr hwn y mae Iesu trwy ei Ysbryd yn gysurwr, anogwr, eiriolwr, ac yn y blaen (gan fod yr holl syniadau hyn yn cael eu cynnwys yn y gair gwreiddiol.

Ond mae’r Ysbryd yn gwneud mwy, oherwydd mae y disgyblion newydd yn credu “er nas gwelsant.” A thrwyddo ef bydd y gymuned yn gwneud arwyddion “mwy na’r rhai hyn” (14:12). Y mae’r Ysbryd yn dwysáu ymwybyddiaeth yr eglwys o bresenoldeb bywiol Iesu gyda hwy a chanlyniad hynny oedd yr egni cenhadol a welir yn y gymuned Ioanaidd. “Fel mae’r Tad wedi fy anfon i, yr wyf innau yn eich anfon chwi.” Ac wedi llefaru’r geiriau hyn mae’r Iesu atgyfodedig yn anadlu arnynt yr Ysbryd Glân.